# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR CRONFA BENSIWN

## A GYNHALIWYD YN YSTAFELL BWYLLGOR 5, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DYDD IAU, 9 MAWRTH 2017 AM 10.00 AM

**YN BRESENNOL**: Bu'r Cadeirydd P. Downing (Is-gadeirydd) yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| P Downing | C E Lloyd | D G Sullivan |

**Cynghorydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot:**
P A Rees

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Karen Cobb | Uwch-gyfrifydd |
| Jeffrey Dong | Prif Swyddog y Drysorfa a Thechnegol |
| Lynne Miller | Rheolwr Pensiynau |
| Jeremy Parkhouse | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Stephanie Williams | Prif Gyfreithiwr |

**Hefyd yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| N Mills | Ymgynghorydd Buddsoddi Annibynnol |
| V Furniss | Ymgynghorydd Buddsoddi Annibynnol |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): R C Stewart a/ac M Thomas

40 **DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, cyhoeddwyd y buddiannau canlynol: -

Y Cynghorydd P. Downing - yr agenda yn ei chyfanrwydd - mae fy mrawd yn gweithio i'r cyngor ac yn cyfrannu at y Gronfa Bensiwn.

**NODWYD** bod y Cynghorydd P Downing wedi cael goddefeb gan y Pwyllgor Safonau yn yr achos hwn.

Y Cynghorydd C E Lloyd - yr agenda yn ei chyfanrwydd - mae fy nhad yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol - personol.

Y Cynghorydd D G Sullivan - yr agenda yn ei chyfanrwydd - mae fy merch yng nghyfraith yn aelod cyfrannol o'r Cynllun Pensiwn ac rwy'n derbyn Pensiwn Llywodraeth Leol a weinyddir gan Gynllun Pensiwn Dyfed - personol.

## 41 **COFNODION.**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion cyfarfod Pwyllgor y Gronfa Bensiwn a gynhaliwyd ar 7 Rhagfyr 2016 fel cofnod cywir.

## 42 **ARDYSTIAD CYFRADDAU PRISIO TEIRBLWYDDOL AC ADDASIADAU DRAFFT 2017.**

Cyflwynodd Chris Archer, AON Hewitt, actiwari'r gronfa bensiwn a benodwyd yn statudol adroddiad a oedd yn ceisio sicrhau cydymffurfio â Rheoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Ychwanegwyd, yn unol â Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, fod Gronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe yn ymgymryd â phrisiad actiwararaidd teirblwydd llawn o 31 Mawrth 2016, er mwyn mesur asedau ac atebolrwydd y Gronfa Bensiwn ac, o ganlyniad, bennu cyfraddau cyfraniadau priodol y cyflogwr y byddant yn daladwy ar gyfer y tair blynedd sy'n cychwyn ar 1 Ebrill 2017. Darparwyd y dystysgrif cyfraddau actiwaraidd ac addasiadau yn Atodiad 1. Roedd actiwari'r gronfa benodedig wedi cwrdd â chyflogwyr a chyflwyno ei brif dybiaethau a meysydd datblygu ynglŷn â phrisiad 2016 iddynt. Ymgynghorwyd â chyflogwyr ar ganlyniadau drafft dangosol ac opsiynau am wella cyfraddau cyfraniadau cynyddol.

Gofynnodd y Pwyllgor gwestiynau i gynrychiolydd AON Hewitt a ymatebodd yn briodol.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo ardystiad cyfraddau prisio teirblwyddol ac addasiadau drafft 2016.

## 43 **DATGANIAD STRATEGAETH ARIANNU DRAFFT 2017**

Darparodd Prif Swyddog y Trysorlys a Thechnegol Ddatganiad Strategaeth Ariannu 2017 i'w gymeradwyo.

Ychwanegwyd, yn unol â Rheoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, fod angen i Gronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe lunio datganiad strategaeth ariannu mewn ymgynghoriad â'r rhai sy'n cyfrannu at y cynllun a'r actiwari a chynghorwyr a benodwyd.

Prif bwrpas y Datganiad Strategaeth Ariannu oedd nodi'r prosesau yr oedd yr Awdurdod Gweinyddu wedi cyflawni'r canlynol drwyddynt:

- Sefydlu strategaeth ariannu glir a thryloyw a oedd yn benodol i'r Gronfa, ac a oedd yn nodi'r ffordd orau o fodloni atebolrwydd pensiwn y cyflogwr.
- Cefnogi'r gofyniad rheoleiddiol mewn perthynas â dymunoldeb cynnal cyfradd cyfraniadau sylfaenol mor gyson â phosib.
- Sicrhau'r gofynion rheoleiddiol i bennu cyfraniadau er mwyn sicrhau y bodlonir diddyledrwydd ac effeithiolrwydd cost tymor hir y Gronfa.
- Cymryd golwg tymor hwy ochelgar ar ariannu atebolrwydd y Gronfa.

Nodwyd, er bod yn rhaid i'r strategaeth ariannu sy'n berthnasol i gyflogwyr unigol gael ei hadlewyrchu yn y Datganiad Strategaeth Ariannu/Datganiad Strategaeth Buddsoddi, dylai ei ffocws bob amser fod ar y gweithdrefnau hynny a oedd o fudd tymor hir i'r Gronfa.

**PENDERFYNWYD** nodi a chymeradwyo Datganiad Strategaeth Ariannu 2017, yn amodol ar unrhyw newidiadau arwyddocaol cyn 31 Mawrth 2017 yn cael eu cymeradwyo gan Swyddog Adran 151 a'u hadrodd yn ôl i'r Pwyllgor.

## 44 POLISI ADRODD AM DORIADAU

Cyflwynodd y Prif Reolwr Pensiynau adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer polisi adrodd am doriadau.

Esboniwyd bod angen adrodd am unrhyw dorcyfraith i'r Rheoleiddiwr Pensiynau dan baragraffau 241 a 275 Côd Ymarfer Rheoleiddiwr Pensiynau Rhif 14 (Llywodraethu a gweinyddu cynlluniau pensiynau gwasanaethau cyhoeddus) - "Côd Ymarfer". Ychwanegwyd y gallai toriadau ddigwydd mewn perthynas ag amrywiaeth eang o'r tasgau sydd fel arfer yn gysylltiedig â swyddogaeth weinyddol cynllun pensiwn megis cadw cofnodion, rheoliadau mewnol, cyfrifo budd-daliadau a gwneud buddsoddiadau neu benderfyniadau sy'n ymwneud â buddsoddi.

Amlinellodd yr adroddiad y gweithdrefnau i'w mabwysiadu gan Gronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe mewn perthynas â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a reolir ac a weinyddir gan Ddinas a Sir Abertawe, o ran adrodd am unrhyw dorcyfraith i'r Rholeiddiwr Pensiynau.

Cafodd rai o'r darpariaethau cyfreithiol allweddol eu cynnwys yn Atodiad A a chafodd enghraifft o gofrestr torcyfraith ei chynnwys yn Atodiad B a darparwyd arweiniad ar fframwaith goleuadau traffig yn Atodiad C. Byddai adroddiad cofnodi toriadau yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Pensiwn a Phwyllgor y Gronfa Pensiwn bob chwarter.

Trafododd y pwyllgor yr wybodaeth yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r polisi.

## 45 CYNLLUN BUSNES 2017/18.

Cyflwynodd Prif Swyddog y Trysorlys a Thechnegol adroddiad a oedd yn ceisio darparu fframwaith gweithredu ar gyfer rhaglen waith y Gronfa Bensiwn 2017/18. Atodwyd y Cynllun Busnes ar gyfer 2017/18 yn Atodiad 1.

**PENDERFYNWYD:** -

1) Nodi a chymeradwyo Cynllun Busnes Blynyddol 2017/18;
2) Nodi'r amserlen a'r cyfrifoldeb ar gyfer pwyntiau gweithredu allweddol yn ystod y flwyddyn.

## 46 CRONFA BUDDSODDI CYMRU - CYTUNDEB RHWNG AWDURDODAU A'R PWYLLGOR LLYWODRAETHU AR Y CYD

Cyflwynodd Prif Swyddog y Trysorlys a Thechnegol adroddiad "er gwybodaeth" yn Atodiad 1 Adroddiad y Cyngor, dyddiedig 23 Chwefror 2017, a oedd yn cymeradwyo'r Cytundeb Rhwng Awdurdodau, Awdurdod Cynnal a sefydlu Pwyllgor Llywodraethu ar y Cyd

## 47 POLISI NEWID YN YR HINSAWDD A BUDDSODDI CARBON - Y DIWEDDARAF

Cyflwynodd Prif Swyddog y Trysorlys a Thechnegol adroddiad "er gwybodaeth" a oedd yn rhoi'r diweddaraf i'r Pwyllgor ar yr argymhelliad blaenorol i gomisiynu dadansoddiad portffolio gyda'r bwriad o greu polisi buddsoddi mewn carbon.

## 48 DATGANIAD STRATEGAETH BUDDSODDI DRAFFT 2017

Cyflwynodd Prif Swyddog y Trysorlys a Thechnegol adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer y datganiad strategaeth buddsoddi. Amlinellwyd, yn unol â Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, fod angen i Gronfa Bensiwn Ddinas a Sir Abertawe gyhoeddi datganiad strategaeth buddsoddi a oedd wedi disodli'r datganiad o egwyddorion buddsoddi. Nodwyd gofynion y Datganiad Strategaeth Buddsoddi yn Rheoliad 7 ac fe'u hamlinellwyd yn yr adroddiad.

Darparwyd y Datganiad Strategaeth Buddsoddi drafft yn Atodiad 1.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo datganiad strategaeth buddsoddi drafft 2017 gan gydnabod ei fod yn ddogfen ddynamig a oedd yn destun adolygu fel y bo'n briodol ac yn unol â'r amgylchiadau.

## 49 GWAHARDD Y CYHOEDD.

Gofynnwyd i'r pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem(au) f/busnes a nodwyd yn argymhelliad/ion yr adroddiad ar y sail ei bod/eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel a nodir ym mharagraff gwahardd Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitem(au) f/busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y pwyllgor brawf budd y cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle roedd prawf budd y cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD** y dylid gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol.

**(SESIWN GAEËDIG)**

## 50 ADRODDIAD(AU) YR YMGYNGHORWYR ANNIBYNNOL

Roedd yr adroddiad yn cyflwyno'r diweddariad economaidd a sylwadau ar y farchnad o safbwynt yr Ymgynghorwyr Buddsoddi Annibynnol a benodwyd.

Atodwyd yr adroddiadau chwarterol a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2016, gan y ddau ymgynghorydd buddsoddi annibynnol, Mr Noel Mills a Mr Valentine Furniss yn Atodiad 1. Dosbarthodd Mr Furniss grynodeb fuddsoddi hefyd am gyfnod o 31 Rhagfyr 2016 tan 9 Mawrth.

Gofynnodd y pwyllgor gwestiynau i bob ymgynghorydd ac atebwyd yn briodol iddynt.

Nodwyd cynnwys pob adroddiad gan y pwyllgor a diolchwyd i'r Ymgynghorwyr Annibynnol am eu hadroddiadau.

51 **CRYNODEB BUDDSODDI**

Darparodd Prif Swyddog y Trysorlys a Thechnegol adroddiad "er gwybodaeth" a oedd yn cyflwyno crynodebau buddsoddi chwarterol yn Atodiad 1 ar gyfer y Gronfa Bensiwn ar gyfer y chwarter, y flwyddyn a thair blynedd a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2016.

52 **CYFLWYNIADAU GAN REOLWYR Y GRONFA: -**

1) Gwnaed cyflwyniad ar y cyd gan Peter Hunt, Funmi Osiyemi a John Ware o Blackrock
2) Gwnaed cyflwyniad ar y cyd gan Katie Jupp a Christoph Englisch o Entrust Permal.

Gofynnodd y pwyllgor gwestiynau am gynnwys y cyflwyniadau ac atebwyd yn briodol iddynt.

Nodwyd cynnwys y cyflwyniadau a diolchodd y Cadeirydd i Reolwyr y Gronfa am ddod i'r cyfarfod.

Daeth y cyfarfod I ben am 12.40 pm

**CADEIRYDD**